



**Law
Commission**
Reforming the law

GOFAL CYMDEITHASOL OEDOLION CRYNODEB O'R ADRODDIAD TERFYNOL

11 Mai 2011

GOFAL CYMDEITHASOL OEDOLION

CRYNODEB O'R ADRODDIAD TERFYNOL

Cyflwyniad

1. Mae gofal cymdeithasol oedolion yn cyfeirio at gyfrifoldebau awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol lleol tuag at oedolion sydd angen cefnogaeth ychwanegol. Mae fframwaith cyfreithiol darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion yn dyddio'n ôl i 1948, ac y mae'n glytwaith cymhleth a dryslyd o ddeddfwriaeth. Cyhoeddwyd adolygiad Comisiwn y Gyfraith o gyfraith gofal cymdeithasol oedolion yn 2008. Arweiniodd y cam cyntaf at gyhoeddi adroddiad cwmpasu ym mis Tachwedd 2008. Dilynwyd hyn gan gyhoeddi papur ymgynghori ym mis Chwefror 2010 oedd yn gosod allan gynigion darpariaethol am ddiwygio'r gyfraith. Mae ein dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghori ar gael ar dudalen y prosiect gofal cymdeithasol oedolion ar <http://www.lawcom.gov.uk>
2. Yr ydym bellach wedi cyhoeddi ein hadroddiad terfynol sydd yn gosod allan ein hargymhellion ar gyfer diwygio gofal cymdeithasol oedolion. Mae'r adroddiad terfynol yn nodi cwblhau prosiect Comisiwn y Gyfraith ar gyfraith gofal cymdeithasol oedolion. Cyhoeddodd y llywodraeth y bydd yn cyflwyno deddfwriaeth yn 2012 i weithredu'r argymhellion y bydd yn eu derbyn yn ein hadroddiad terfynol.
3. Dyma grynodeb o'r prif argymhellion sydd yn yr adroddiad terfynol.

Strwythur diwygio (Rhan 3 yr Adroddiad Terfynol)

4. Mae fframwaith cyfreithiol gofal cymdeithasol oedolion yn glytwaith o ddeddfwriaeth sydd yn aml yn annealladwy, sy'n peri bod dehongli a chymhwysu'r gyfraith yn gymhleth ac yn cymryd amser. Yn ein barn ni, y ffordd orau i gydgrynhoi a symleiddio fyddai trwy sefydlu un statud gofal cymdeithasol oedolion unedig.
5. Gellid gwneud hyn trwy statudau ar wahân yng Nghymru a Lloegr neu un statud i'r ddwy wlad. Yn ein barn ni, cafwyd ateb yn ymarferol i'r mater trwy ganlyniad y refferendwm yn cefnogi pwerau deddfu llawnach i'r Cynulliad Cenedlaethol, a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2011. Mae cyflwyno Rhan 4 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi rhoi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer i ddeddfu yn holl faes gofal cymdeithasol oedolion. Argymhellwn felly y dylid cael statudau unigol am ofal cymdeithasol oedolion i Gymru ac i Loegr, ac y dylai hyn yng Nghymru gael ei weithredu trwy gyfrwng Deddf y Cynulliad Cenedlaethol.
6. Y statud newydd, yng Nghymru ac yn Lloegr fel ei gilydd, fyddai lefel gyntaf ein strwythur tair-lefel newydd i ofal cymdeithasol oedolion. Byddai'r statud yn gosod allan ddyletswyddau a phwerau craidd awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol lleol, na fyddai'n destun cyfarwyddiadau na chymeradwyo pellach. I osgoi dyblygu, a rhag i haenau gormodol o gyfraith ddatblygu, byddid

yn diddymu'r pŵer eang i gyhoeddi cyfarwyddiadau dan adran 7A Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 fel y mae a wnelo â'n cynllun ni.

7. Ail lefel ein cynllun fyddai rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru, i roi mwy o fanylion lle bo angen ac i ganiatáu am ddatblygiadau polisi yn y dyfodol.
8. Byddai gofyn i bob Llywodraeth hefyd gyhoeddi canllawiau cyfunol ar y statud newydd ar ffurf cod ymarfer. Dyma fyddai trydydd lefel ein cynllun, a byddai'n rhoi canllawiau i awdurdodau lleol ynghlŷn â rhoi grym i'r statud newydd a'i gweithredu.

Egwyddorion statudol (Rhan 4 yr Adroddiad Terfynol)

9. Bwriad egwyddorion statudol yw rhoi mynegiant deddfwriaethol i ddiben gwaelodol statud a bod yn ganllaw i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ac a fydd yn gweithredu dan y ddeddfwriaeth. Yn ein barn ni, da o beth yw darparu ar gyfer un pwrpas unol y trefnir gofal cymdeithasol oedolion o'i amgylch. Argymhellwn felly y dylai'r statud newydd sefydlu mai prif ddiben cyffredinol gofal cymdeithasol oedolion yw hybu neu gyfrannu at les yr unigolyn. Mewn gwirionedd, rhaid i les yr unigolyn fod yn sail i bob penderfyniad a wneir a phob cam a gymerir dan y statud.
10. Ni fyddai'r statud yn rhoi diffiniad manwl o les, ond byddai yn datgan rhestr wirio o ffactorau sy'n rhaid eu hystyried cyn dod i benderfyniad parthed unigolyn. Felly byddai gofyn i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau wneud y canlynol:
 - rhagdybio mai'r unigolyn all farnu orau am ei les ei hun, ac eithrio mewn achosion lle nad oes ganddo'r galluedd i wneud y penderfyniad perthnasol;
 - dilyn barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn lle bynnag y bo hynny'n ymarferol ac yn briodol;
 - sicrhau y seilir penderfyniadau ar amgylchiadau unigol y person ac nid yn unig ar oedran neu olwg yr unigolyn, neu gyflwr neu agwedd o'i ymddygiad a allai arwain eraill i wneud rhagdybiaethau heb gyfiawnhad;
 - rhoi cyfle i unigolion ymwneud, cyhyd ag sy'n ymarferol dan yr amgylchiadau, ag asesiadau, cynllunio, datblygu ac adolygu eu gofal a'u cefnogaeth;
 - dod i gydbwysedd gyda lles eraill, os yw hyn yn berthnasol ac yn ymarferol;
 - diogelu oedolion lle bynnag bo hynny'n berthnasol rhag camdriniaeth ac esgeulustod; a
 - defnyddio'r ateb lleiaf cyfyngus lle bo angen i ymyrryd â hawliau a rhyddid gweithredu'r unigolyn lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.

Asesiadau (Rhan 5 yr Adroddiad Terfynol)

11. Yn ein cynllun ni, byddai dwy lefel lle gellid darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion. Y lefel gyffredinol yw'r cyntaf, gyda darparu gwasanaethau cyffredinol i'r gymuned ehangach er mwyn helpu i atal neu oedi'r angen am ymyriadau gofal cymdeithasol wedi eu targedu yn fanylach. Yma, byddai gan awdurdodau lleol rôl ehangach o ran sicrhau darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i bobl sydd heb gael asesiad neu nad ydynt eisiau un, neu nad ydynt yn gymwys am wasanaethau. Byddai gan awdurdodau hefyd gyfrifoldeb i hybu datblygu digon o fathau o wasanaethau a chefnogaeth yn y farchnad leol. Byddai'r ail lefel wedi ei thargedu at wasanaethau gofal cymdeithasol, a ddarperid yn dilyn asesiad gofal cymunedol.
12. Byddai'r statud newydd yn gosod allan un ddyletswydd glir i asesu unigolyn. Fel dan y gyfraith bresennol, byddai trothwy cymhwys isel am asesiad, fyddai'n cael ei gychwyn lle'r ymddengys i awdurdod lleol y gall fod gan unigolyn anghenion y gellid eu hateb gan wasanaethau gofal cymunedol. Cyhyd ag yr atebir y trothwy hwn, bydd y ddyletswydd yn cael ei chychwyn hyd yn oed os nad yw'r unigolyn yn cydsynio i asesiad. Fodd bynnag, dan ein cynllun ni, gallai awdurdod lleol dderbyn y ffaith fod unigolyn yn gwrthod asesiad fel cydnabyddiaeth o'r ffaith eu bod wedi gwneud eu dyletswydd, oni fyddai pryderon yn bodoli ynghylch diogelu neu bryderon am alluedd yr unigolyn.
13. I helpu i osgoi agwedd at asesu sy'n cael ei harwain gan y gwasanaeth, byddai'r statud newydd yn dweud yn bendant fod yn rhaid i asesiad ganolbwyntio ar anghenion yr unigolyn am ofal a chefnogaeth a'r deilliannau y myn gael. Wrth gynnal asesiadau, byddai gofyn i awdurdodau lleol ymgynghori â'r unigolyn a'r sawl sy'n gofalu amdani/o, oni fyddai hyn yn amhosibl.
14. O gofio pwysigrwydd y broses asesu i gyrchu gwasanaethau, byddai gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau yn dweud sut y dylid cynnal asesiad. Byddai'r rheoliadau hyn yn mynnu, o leiaf, bod aseswyr yn gwneud y canlynol:
 - cymryd agwedd gymesur at asesu, gan gadw mewn cof anghenion yr unigolyn;
 - cynnal asesiad arbenigol dan amgylchiadau penodol; ac
 - ystyried yr holl anghenion yn ystod asesiad, boed yn cael eu hateb neu'n gallu cael eu hateb gan drydydd parti (megis gofalwr) neu beidio.

Byddai'r Llywodraeth a Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn gallu rhagnodi manylion eraill y broses asesu pe dymument, megis amserlenni a'r meysydd y mae'n rhaid i asesiad ymdrin â hwy.

15. Er mwyn annog asesiadau unedig, byddai'r statud newydd yn ei gwneud yn glir y gall awdurdod lleol gynnal asesiad gofal cymunedol ar yr un pryd ag y cynhelir unrhyw asesiad arall, megis y Dull Rhaglen Ofal, Proses yr Asesiad Unigol a gofal iechyd cyson y GIG. Gallai awdurdod lleol hefyd awdurdodi eraill

Cymhwyster (Rhan 6 yr Adroddiad Terfynol)

16. Dan ein cynllun ni, asesiad o angen a chymhwyso'r meini prawf cymhwyster fyddai'r unig fodd o bennu cymhwyster unigolyn am wasanaethau gofal cymunedol (gan gynnwys gofal preswyl). Yn dilyn asesiad, byddai gofyn i awdurdodau lleol bennu a yw anghenion gofal cymdeithasol unigolyn yn anghenion cymwys, gan ddefnyddio meini prawf cymhwyster, ac i ddarparu neu drefnu gwasanaethau gofal cymdeithasol i ateb pob angen cymwys. Byddai'r ddyletswydd i ateb anghenion cymwys yn ddyletswydd unigol, y mae modd ei orfodi trwy adolygiad barnwrol.
17. Byddai'r statud yn mynnu bod yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau yn rhagnodi'r fframwaith cymhwyster ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cymunedol, y byddai'n rhaid i awdurdodau lleol eu defnyddio i osod eu meini prawf cymhwyster. Byddai'r cod ymarfer yn nodi sut y dylai awdurdodau lleol osod eu meini prawf cymhwyster, gan gynnwys yr anghenion y mae'n rhaid i'r awdurdod, fel lleiafswm, ddarparu gwasanaethau i'w hateb. Fodd bynnag, byddai ein cynllun hefyd yn caniatáu i'r Llywodraethau osod meini prawf cymhwyster ar lefel genedlaethol yng Nghymru neu yn Lloegr, pe dymunai'r naill Lywodraeth neu'r llall wneud hynny.
18. Er mwyn sicrhau y cedwir hawliau i wasanaethau sy'n bodoli eisoes, byddid yn cadw'r ddyletswydd i ddarparu llety preswyl dan adran 21 Deddf Cymorth Gwladol 1948 yn y statud newydd fel dyletswydd gyfreithiol i'w ddefnyddio yn y pen draw. Byddai hyn yn rhoi hawl i lety preswyl i'r sawl sy'n disgyn islaw meini prawf cymhwyster yr awdurdod lleol ond sydd yn dal ag angen gofal a sylw na fuasai fel arall ar gael iddynt.

Asesiadau gofalwyr a chymhwyster (Rhan 7 yr Adroddiad Terfynol)

19. Byddai'r statud newydd yn gosod allan un ddyletswydd glir ac annibynnol i gynnal asesiad gofalwr. Ni fyddai'r ddyletswydd hon yn dibynnu ar i'r sawl sy'n derbyn y gofal gael asesiad gofal cymunedol yr un pryd, ond byddai gofyniad yn unig i'r sawl sy'n derbyn y gofal fod yn rhywun y mae gan yr awdurdod lleol bŵer i ddarparu gwasanaethau iddo/i. Mewn gwirionedd, fe gyfyd y ddyletswydd i asesu gofalwr hyd yn oed os gwrthododd y sawl sy'n derbyn gofal asesiad neu os nad yw'n gymwys am wasanaethau.
20. Byddai'r ddyletswydd newydd i asesu gofalwr yn gwneud i ffwrdd â'r gofyniad presennol i'r gofalwr fod yn darparu *swm sylweddol o ofal yn rheolaidd*. Yn ein barn ni, mae'r prawf hwn yn rhy gymhleth, yn gallu cael ei ddehongli mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd gan awdurdodau lleol, ac yn creu aneffeithlonrwydd trwy fynnu bod awdurdodau lleol yn cynnal cyn-asesiadau. Ymhellach, ni fyddai gofyn bellach i ofalwr wneud cais ffurfiol am asesiad er mwyn rhoi cychwyn i'r ddyletswydd i asesu. Yn hytrach, byddid yn rhoi cychwyn i'r ddyletswydd i asesu lle'r ymddengys i'r awdurdod lleol y gall fod gan y gofalwr anghenion y gellid eu hateb trwy ddarparu gwasanaethau i

21. Er y byddai gweithwyr gofal taledig neu wirfoddolwyr yn cael eu heithrio o asesiadau gofalwyr, byddai gan awdurdodau lleol y disgrisiwn i asesu gofalwr o'r fath lle credant nad yw'r berthynas o ofal yn bennaf yn fasnachol neu yn wirfoddol arferol.
22. Byddai gofyn i asesiad gofalwr, unwaith iddo gael ei gychwyn, ganoli ar allu'r gofalwr i ddarparu ac i barhau i ddarparu gofal i'r unigolyn y gofelir amdano/i a hefyd i ystyried a fuasai'r gofalwr yn dymuno gweithio neu ddilyn addysg, hyfforddiant neu unrhyw weithgaredd amser hamdden. Fel gydag asesiadau gofal cymunedol, byddai gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru ragnodi'r broses am asesiadau gofalwyr yn y rheoliadau. Er mwyn sicrhau proses gysylltiol rhwng asesiadau gofal cymunedol ac asesiadau gofalwyr, byddai'r rheoliadau asesu yn mynnu y dylai canlyniadau asesiad y gofalwr (gan gynnwys gofalwyr ifanc) ac asesiad y sawl sy'n derbyn gofal fod yn sail o wybodaeth y naill i'r llall.
23. Unwaith i awdurdod lleol gynnal asesiad gofalwr, byddai'n rhaid iddynt benderfynu darparu gwasanaethau neu beidio i'r gofalwr. Dan ein cynllun ni, byddai gofyn i'r naill Lywodraeth a'r llall ragnodi'r fframwaith cymhwyster am wasanaethau gofalwyr mewn rheoliadau. Byddai awdurdodau lleol yn defnyddio'r fframwaith cymhwyster hwnnw i osod eu meini prawf cymhwyster a buasent yn pennu a yw anghenion gofalwr yn gymwys trwy gymhwyso'r meini prawf. Byddai gofyn i awdurdodau lleol ateb anghenion cymwys gofalwyr, naill ai trwy ddarparu gwasanaethau i'r sawl sy'n derbyn gofal neu i'r gofalwr.

Darparu gwasanaethau (Rhan 8 yr Adroddiad Terfynol)

24. Unwaith i awdurdod lleol gynnal asesiad a dod i'r casgliad fod gan unigolyn anghenion sy'n galw am ddarparu gwasanaethau, yna rhaid i'r awdurdod wneud trefniadau i ddarparu'r gwasanaethau hynny. Yn y statud, byddai amrywiaeth y gofal a'r gefnogaeth y gellid ei ddarparu i ddefnyddwyr gwasanaeth (y cyfeirir atynt ar hyn o bryd fel *gwasanaethau gofal cymunedol*) yn cael ei ddiffinio trwy gyfeirio at restr o wasanaethau cyffredinol a deilliannau. Mewn gwirionedd, byddai gwasanaethau gofal cymunedol (beth bynnag fyddai'r enw arnynt) yn cael eu diffinio yn y statud fel unrhyw rai o'r canlynol a ddarperir yn unol â'r egwyddor lles:
 - llety preswyl;
 - gwasanaethau yn y gymuned a'r cartref;
 - cyngor, gwaith cymdeithasol, gwasanaethau cwnsela ac eiriolaeth; neu
 - gymorth ariannol neu o fath arall.
25. Byddai'r statud hefyd yn gosod allan y rhestr ganlynol o ddeilliannau y mae'n rhaid cyfeirio'r egwyddor lles tuag atynt:
 - iechyd a lles emosiynol;

- amddiffyn rhag niwed;
 - addysg, hyfforddiant a hamdden;
 - y cyfraniad a wneir i gymdeithas; a
 - sicrhau hawliau a haeddiannau.
26. Byddai gwasanaethau gofalwyr yn cael eu diffinio yn y statud trwy gyfeirio at yr un rhestr o wasanaethau a deilliannau a argymhellir gennym ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth. Byddai hyn yn rhoi mwy o gysondeb ac eglurder.
27. Byddai'r statud newydd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau y cynhyrchid cynllun gofal a chefnogaeth i bobl ag anghenion a aseswyd fel rhai cymwys (gan gynnwys gofalwyr a phobl sy'n talu drostynt eu hunain). Os syrth unigolyn islaw'r meini prawf cymhwyster, yna byddai gofyn i'r awdurdod roi'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw yn ysgrifenedig a pheri bod cofnod ysgrifenedig o'r asesiad ar gael i'r unigolyn.
28. Byddai gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru ragnodi ffurf a chynnwys y cynlluniau gofal a chefnogaeth mewn rheoliadau. Byddai'r rheoliadau yn gwneud y canlynol:
- mynnu bod cynlluniau yn cael eu datgan yn ysgrifenedig ac yn cael eu llofnodi ar ran yr awdurdod lleol;
 - mynnu bod cynlluniau yn cynnwys crynodeb o anghenion a aseswyd, anghenion cymwys, a'r deilliannau i'w cyrraedd;
 - nodi, lle bo hynny'n briodol, bod yn rhaid i gynlluniau gynnwys swm y gyllideb bersonol a sut y gweithiwyd y swm hwn allan;
 - mynnu bod yn rhaid i gynlluniau gynnwys crynodeb o'r gwasanaethau a ddarperir, a ddarperir taliad uniongyrchol ai peidio, ac unrhyw gyfraniadau ariannol;
 - mynnu bod cynlluniau yn cael eu hadolygu yn rheolaidd; a
 - nodi y dylai copi o'r cynllun fod ar gael yn wastad i'r defnyddiwr gwasanaeth.
29. Byddai ein cynllun yn rhoi fframwaith cyfreithiol i gyllidebau personol ac yn galluogi datblygu polisi yn y maes hwn. Byddai'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru yn cael grym i wneud rheoliadau i fynnu bod awdurdodau lleol yn neilltuo cyllideb bersonol i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Os gwneir y rheoliadau, rhaid iddynt ddweud pwy sy'n gymwys am gyllideb bersonol a'r amgylchiadau pryd na ddylid neilltuo cyllidebau.
30. Byddai'r darpariaethau cyfreithiol presennol sy'n rheoleiddio taliadau uniongyrchol - hynny yw, taliad mewn arian yn lle gwasanaethau - yn cael eu cadw yn ein cynllun ni. Fodd bynnag, byddid yn gwneud i ffwrdd â'r cyfyngiad presennol ar ddefnyddio taliadau uniongyrchol i brynu llety preswyl tymor-hir.

31. Yn olaf, byddid yn cyflwyno pŵer i greu rheoliadau i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru i fynnu neu i awdurdodi awdurdodau lleol i godi am wasanaethau preswyl a dibreswyl, neu i sefydlu trefn o godi am wasanaethau (fel yng Nghymru). Ymhellach, byddid yn cadw'r pŵer sy'n bod eisoes i greu rheoliadau sy'n galluogi darparu gwasanaethau am ddim, ac fel isafswm, byddai'r gwasanaethau presennol y mae'n rhaid eu darparu am ddim yn cael eu cynnwys yn y rheoliadau.

Amddiffyn oedolion (Rhan 9 yr Adroddiad Terfynol)

32. Yn ogystal â gosod allan y fframwaith cyfreithiol am ddarparu gofal a chefnogaeth, byddai ein cynllun yn datgan dyletswyddau a phwerau awdurdodau lleol i ddiogelu oedolion rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Byddai'r statud newydd yn dweud yn glir mai awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol lleol sy'n arwain ar gydgordio'r cyfrifoldeb dros ddiogelu. Fel rhan o'r cyfrifoldeb hwnnw, byddai'r statud yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ymchwilio i achosion amddiffyn oedolion, neu beri i asiantaethau eraill gynnal ymchwiliad, mewn achosion unigol.
33. Lle bo'r ddyletswydd i ymchwilio yn cael ei gychwyn, gallai'r awdurdod lleol gynnal yr ymchwiliad ei hun, neu gael y ddyletswydd wedi ei wneud trwy nifer o lwybrau - megis trwy gyfeirio'r mater at asiantaeth arall, neu gychwyn ymchwiliad aml-asiantaethol. Fodd bynnag, efallai y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol barhau i fod â rôl gyson o fonitro pan fyddant yn dwyn eraill i mewn i ymchwiliad. I helpu i hwyluso gweithio aml-asiantaethol, byddai gan awdurdodau lleol y pŵer i ofyn am gydweithrediad a chymorth gan rai cyrff (megis cyrff iechyd a'r heddlu) yn ystod materion amddiffyn oedolion, a byddai'n rhaid i'r corff sy'n derbyn y cais wedyn ei ystyried.
34. Byddai'r ddyletswydd i ymchwilio yn gymwys i oedolyn mewn perygl, ac y mae pedair elfen i'r diffiniad hwn:
- (i) Rhaid iddi ymddangos bod gan yr unigolyn anghenion hiechyd neu ofal cymdeithasol, gan gynnwys gofalwyr (boed yr anghenion hynny'n cael eu hateb gan wasanaethau neu beidio).
 - (ii) Rhaid i'r unigolyn ymddangos fel petai mewn perygl o *niwed*, yn hytrach na *niwed arwyddocaol* fel sydd yn y canllawiau statudol presennol.
 - (iii) Rhaid iddi ymddangos na all yr unigolyn ei ddiogelu ei hun rhag niwed o ganlyniad uniongyrchol i'w anghenion iechyd neu ofal cymdeithasol.
 - (iv) Rhaid i'r awdurdod lleol gredu bod angen gwneud ymholiadau. Gall hyn fod oherwydd, er enghraifft, na fydd camau eraill llai cyfyngus (megis

35. Byddai *niwed* yn cael ei ddiffinio yn y statud fel rhywbeth sy'n cynnwys y canlynol ond heb ei gyfyngu i hynny'n unig:
- Camdriniaeth (gan gynnwys camdriniaeth rywiol, camfanteisio a mathau o gamdriniaeth heb fod yn gorfforol);
 - amharu ar iechyd (corfforol neu feddyliol) neu ddatblygiad (corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol);
 - hunan-niweidio ac esgeulustod;
 - ymddygiad anghyfreithlon sy'n effeithio'n andwyol ar eiddo, hawliau neu fuddiannau (er enghraifft, camdriniaeth ariannol).
36. Byddai'r statud newydd yn rhoi rôl arweiniol i awdurdodau lleol o ran sefydlu a chynnal byrddau diogelu oedolion. Byddai'r statud yn nodi'r swyddogaethau canlynol i'r byrddau hyn:
- adolygu gweithdrefnau ac arferion cyrff cyhoeddus sydd yn ymwneud â diogelu oedolion;
 - rhoi gwybodaeth neu gyngor, neu wneud cynigion, i unrhyw gorff cyhoeddus ynghylch cyflawni swyddogaethau sydd a wnelont â diogelu oedolion;
 - gwella sgiliau a gwybodaeth gweithwyr proffesiynol sydd â chyfrifoldebau yn ymwneud â diogelu oedolion; a
 - cynhyrchu adroddiad bob dwy flynedd ar arfer swyddogaethau'r bwrdd.
37. Byddai gofyn i'r awdurdod lleol, y GIG a'r heddlu enwebu aelod i'r bwrdd fyddai'n meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau priodol. Byddai gan y Comisiwn Ansawdd Gofal, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru y grym i enwebu cynrychiolydd. Byddai'r bwrdd diogelu oedolion hefyd yn gyfrifol am gomisiynu adolygiadau achosion difrifol.
38. Ni fyddai'r statud newydd yn gosod allan bwerau newydd gorfodol ac argyfwng i awdurdodau lleol mewn achosion diogelu oedolion, megis pwerau mynediad neu orchmynion eithrio, oni fydd y naill Lywodraeth neu'r llall yn penderfynu fod angen y cyfryw bwerau. Ymhellach, byddid yn diddymu'r pŵer presennol i symud unigolyn o'i gartref i lety priodol dan adran 47 Deddf Cymorth Gwladol 1948, ar y sail nad yw'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, fod llawer o anawsterau o ran ei weithredu, a'i fod yn ymarferol ddarfodedig.

Preswyllo cyffredin a hwylustod cludo (Rhan 10 yr Adroddiad Terfynol)

39. Defnyddir y rheolau preswyllo cyffredin i ganfod pa awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal cymunedol i unigolyn. Dan ein cynllun ni, byddai'r rheolau hyn yn gymwys i bob gwasanaeth gofal cymunedol a buasent yn datgan, er enghraifft, fod gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau lle bo'r unigolyn yn preswyllo fel arfer yn eu hardal (yn amodol ar gymhwyso meini prawf cymhwyso'r awdurdod lleol) a phŵer i ddarparu gwasanaethau i bobl nad ydynt fel arfer yn preswyllo neu heb breswylfod sefydlog. O ran gofalwyr, byddai'r prif gyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau gofalwyr yn aros gyda'r awdurdod lleol lle mae'r sawl sy'n derbyn gofal yn byw.
40. Byddai ein cynllun ni hefyd yn sefydlu tri mecanwaith i hwyluso cludo gwasanaethau. Byddai'r statud newydd yn gwneud y canlynol:
- sefydlu dyletswydd estynedig i gydweithredu, a fyddai'n gymwys pan fo unigolyn yn symud ardal. Byddai hyn yn caniatáu i awdurdod lleol ofyn am gymorth gan awdurdod lleol neu gorff arall, a byddai'n rhaid i'r corff fyddai'n derbyn y cais roi ystyriaeth ddyledus i'r cais.
 - sefydlu, pan fo defnyddiwr gwasanaeth yn symud o ardal un awdurdod lleol i un arall, neu fod ganddo fwriad clir i symud, rhaid i'r awdurdod derbyn gynnal asesiad. Os, wedi asesiad, y bydd yr awdurdod newydd yn penderfynu rhoi pecyn cefnogi sylweddol wahanol i'r defnyddiwr gwasanaeth, yna rhaid i'r awdurdod gynhyrchu esboniad ysgrifenedig clir i'r defnyddiwr gwasanaeth a, lle bo hynny'n briodol, y sawl sy'n gofalu amdano/i, a
 - cyflwyno pŵer i'r naill Lywodraeth a'r llall i wneud rheoliadau sy'n mynnu, pan fo defnyddiwr gwasanaeth yn symud o un awdurdod i'r llall, fod yn rhaid i'r awdurdod newydd roi i'r unigolyn wasanaethau neu daliadau uniongyrchol cyfatebol i'r rhai a ddarperir gan yr awdurdod gwreiddiol i ateb eu hanghenion gofal nes iddynt gael asesiad yn yr awdurdod newydd.

Argymhellion eraill (Rhannau 11 a 12 yr Adroddiad Terfynol)

41. Yn ychwanegol at yr elfennau allweddol uchod, mae'r adroddiad terfynol hefyd yn gosod allan ein hargymhellion mewn nifer o feysydd eraill, gan gynnwys:

Y rhaniad iechyd a gofal cymdeithasol

42. Byddid yn cadw'r gwaharddiadau statudol presennol ar ddarparu gofal iechyd gan awdurdodau lleol, ond byddid yn gwneud gwahanol agweddau o'r drefn bresennol yn fwy eglur. Er enghraifft, byddai iaith y gwaharddiadau yn cael ei symleiddio, a byddai'r *prawf maint ac ansawdd* a ddefnyddir i bennu pa wasanaethau iechyd y gall awdurdod lleol yn gyfreithiol eu darparu yn cael eu rhoi ar wyneb y statud (yn hytrach na'u gadael i gyfraith achos).
43. Byddai'r naill Lywodraeth a'r llall hefyd yn cael pŵer i sefydlu mewn rheoliadau fframwaith cymhwyster ar gyfer darparu gofal iechyd cyson parhaus dan y GIG ac i nodi pa gyfuniad o anghenion sy'n sefydlu angen iechyd sylfaenol lle byddai'r unigolyn yn gymwys am ofal iechyd cyson parhaus dan y GIG.

Plant a phobl ifanc

44. Byddai'r statud newydd yn gymwys i rai 18 a hŷn, ond i helpu gyda throsiant pobl ifanc o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion, byddai gan awdurdodau lleol bwr i asesu a darparu gwasanaeth i rai 16 a 17 oed dan y statud oedolion. Byddai pobl ifanc 16 ac 17 oed (a'u rhieni neu eu gofalwyr ar eu rhan) yn gallu gofyn am asesiad dan y statud oedolion, a byddai'n rhaid i'r awdurdod lleol roi rhesymau ysgrifenedig os penderfyna beidio â chynnal yr asesiad. I ganiatau am ddatblygu polisi, byddai'r statud hefyd yn rhoi i'r naill Lywodraeth a'r llall y pŵer i fynnu bod rhai grwpiau o bobl ifanc yn wastad yn cael eu hasesu dan y statud oedolion.

Gofalwyr ifanc a rhieni sy'n ofalwyr

45. Er mwyn sicrhau nad yw gofalwyr ifanc a rhieni sy'n ofalwyr yn colli eu hawliau presennol i asesiadau gofalwyr a gwasanaethau, byddai'r ddeddfwriaeth ar asesiadau gofalwyr yn cael ei gadw a'i ddiwygio i fod yn gymwys yn unig i'r grwpiau hyn (neu byddai Deddf Plant 1989 yn cael ei diwygio i ymgorffori'r darpariaethau hyn). I helpu gyda chynllunio trosiannol, byddai'r pŵer i asesu pobl ifanc, a ddisgrifir uchod, a'r mecanwaith gwneud cais, yn gymwys i ofalwyr ifanc.

Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983

46. Byddai Adran 117 yn cael ei chadw yn Neddf Iechyd Meddwl 1983, ond yn cael ei newid o ddyletswydd arunig i ddarpariaeth porth. Byddai hyn yn golygu yr edrychid ar unrhyw wasanaethau ôl-ofal gofal cymdeithasol fel gwasanaethau a ddarperid dan y statud gofal cymdeithasol oedolion newydd. Ymhellach, byddai'r rheolau am ddewis o ddarpariaethau llety a phreswyllo cyffredin yn cael eu hystyngtu i adran 117. Byddai'r diffiniad o ôl-ofal yn cael ei ychwanegu at Ddeddf 1983.

Dyletswyddau i gydweithredu

47. Byddai'r statud newydd yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod gwasanaethau cymdeithasol i wneud trefniadau i hybu cydweithredu gyda chyrrff penodol, gan gynnwys awdurdodau eraill, y GIG a'r heddlu. Byddai hefyd yn cyflwyno dyletswydd estynedig i gydweithredu dan amgylchiadau arbennig, megis pan gynhelir asesiad gofal cymunedol neu asesiad gofalwr, pan ddarperir gwasanaethau, neu yn ystod ymchwiliadau amddiffyn oedolion. Byddai gofyn i'r asiantaeth sy'n derbyn y cais roi ystyriaeth ddyledus i'r cais, a rhoi rhesymau ysgrifenedig os gwrthoda gydweithredu. Byddai'r ddyletswydd hefyd yn mynnu bod yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol yn ystyried ceisiadau i gydweithredu ac i roi rhesymau ysgrifenedig os penderfyna beidio â chydweithredu.

Eiriolaeth

48. Y mae hawl i eiriolaeth yn bod mewn deddfwriaeth gofal cymdeithasol oedolion nas gweithredwyd erioed. Byddai hyn yn cael ei gadw yn ein cynllun ni, gyda'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru weithredu'r hawl a'i newid er mwyn iddo fod yn unol â'r deall cyfoes.

Cofrestrï anabledd

49. Byddai ein cynllun ni yn rhoi yn lle'r ddyletswydd bresennol sydd gan awdurdodau lleol i gynnal cofrestr o'r holl bobl anabl ofyniad mwy arunig i sefydlu cofrestr o bobl ddall a rhannol ddall yn eu hardal. Mewn achosion eraill, byddai gan awdurdodau lleol y pŵer i gynnal cofrestrï, petaent yn dymuno gwneud hynny.

Gofal cymdeithasol a charchardai

50. Byddai ein cynllun yn datgan yn glir a ddylai carcharorion gael eu heithrio neu beidio o ofal cymdeithasol oedolion.

GWYBODAETH BELLACH

51. Am fwy o wybodaeth am unrhyw rai o'r argymhellion a drafodwyd uchod, gweler tudalen y prosiect gofal cymdeithasol oedolion ar: <http://www.lawcom.gov.uk>